



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Croeso i Gymru:

Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr
2020 – 2025.

Asesiad Effaith Integredig

Cynnwys

01. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	Page 3
02. Yr effaith ar lesiant cymdeithasol	Page 5
03. Yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg	Page 7
04. Yr effaith ar lesiant economaidd	Page 8
05. Yr effaith ar lesiant amgylcheddol	Page 9
06. Cofnod o'r asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol	Page 10
07. Casgliad	Page 11

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Cymru. Mae mwy na 11,500 o fusnesau yn helpu i ddenu bron i 11 miliwn o ymwelwyr dros nos i Gymru bob blwyddyn.

Ymysg y busnesau a'r sefydliadau hyn mae darparwyr llety, atyniadau, trefnwyr digwyddiadau, treftadaeth, cyrff chwaraeon a diwylliant, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Gwariodd ymwelwyr tua £6.3 biliwn yn yr economi leol yn 2018.

Fel rhan o Lywodraeth Cymru, mae Croeso Cymru yn arwain gwaith marchnata, hyrwyddo a buddsoddi mewn twristiaeth, ac yn gweithio er mwyn cefnogi'r sector twristiaeth yng Nghymru. Caiff gwaith Croeso Cymru ei lywio gan y cynllun presennol ar gyfer twristiaeth – *Partneriaeth ar gyfer twf: ar gyfer twristiaeth 2013 i 2020* – a ddaw i ben yn 2020.

Cyn dechrau gweithio ar gynllun newydd, cynhaliodd Croeso Cymru broses arolygu ac ymgysylltu eang. Dechreuodd hyn gydag adolygiad o'r cynllun blaenorol ar gyfer twristiaeth. Pennodd 'Partneriaeth ar gyfer Twf' bum blaenoriaeth – hyrwyddo, datblygu cynnyrch, pobl, perfformiad proffidiol a meithrin lle. Bu Croeso Cymru yn olrhain cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn, yn 2016 ac eto yn 2019. Dangosodd yr adolygiadau hyn bod y mwyafrif o'r ymrwymadau yn y cynllun blaenorol wedi cael eu cyflawni, a bod Cymru ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed cyffredinol o 10% o dwf mewn gwariant ymwelwyr, er bod heriau o hyd i'r sector yng Nghymru yn cynnwys materion fel sgiliau.

Wrth baratoi i ddatblygu blaenoriaethau newydd, adolygodd Croeso Cymru y sail dystiolaeth bresennol hefyd ar gyfer *perfformiad twristiaeth* a rhoddodd broses ymgysylltu eang ar waith gyda'r sector a rhanddeiliaid. Mae'r blaenoriaethau newydd wedi'u llywio gan nifer o'r materion a gododd o'r gweithgareddau hyn.

Y '**cam gweithredu**' yw cyhoeddi Cynllun twristiaeth newydd - *Croeso i Gymru - Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025*. Bydd y Cynllun newydd hwn yn llywio gwaith Croeso Cymru ac yn hysbysu gwaith cynllunio busnes a dyrannu adnoddau. Caiff y blaenoriaethau yn y cynllun eu cyflawni mewn partneriaeth â'r sector twristiaeth ac eraill. .

Yn gryno, yr uchelgais cyffredinol yw, 'Tyfu twristiaeth er budd Cymru', drwy'r nod canlynol: 'Twf economaidd sy'n cyflawni blaenoriaethau i bobl a llefydd, yn cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwyllianol a buddiannau iechyd'. Mae'r uchelgais hon wedi deillio'n uniongyrchol o'r broses ymgysylltu lle mae rhanddeiliaid wedi gofyn i ni gymryd mwy o ystyriaeth o gynaliadwyedd a'r nodau llesiant.

Credwn y gall yr hyn sy'n dda i ymwelwyr, fod yn dda i bobl yng Nghymru, felly mae **gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru** yn ganolog i'r Cynllun. Byddwn yn gwneud hynny drwy'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun, gan barhau i hyrwyddo Cymru fel lle gwych i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo, drwy fuddsoddi mewn cynhyrchion a chyfleusterau sydd o fudd i bobl yng Nghymru yn ogystal ag ymwelwyr, a thrwy gefnogi diwydiant sy'n creu swyddi lleol ac yn cyfrannu at hyfywedd lleoedd lleol. Byddwn hefyd yn mesur hynny drwy geisio canfyddiadau trigolion, yn ogystal â busnesau ac ymwelwyr.

Bydd y Cynllun yn cyflwyno profiadau i ymwelwyr sydd wedi'u llywio gan ddau gysyniad Cymreig – Bro a Byd. Mae a wnelo 'bro' â sicrhau llesiant yn lleol ac mae a wnelo 'byd' â sicrhau ein bod hefyd, drwy hynny, yn cyrraedd safonau ansawdd rhyngwladol ac yn ymateb iddynt. Mae profiadau o ddiwylliant, tirwedd, antur a bwyd a llety unigryw yn ganolog i graidd yr arlwy twristiaeth yng Nghymru.

Y pedair prif flaenoriaeth yn y cynllun yw:

- cynhyrchion a lleoedd gwych
- profiadau o ansawdd i ymwelwyr
- brand Cymru Wales arloesol
- sector cysylltiedig a bywiog.

Bydd y Cynllun yn annog ymwelwyr â'r DU i brofi gwyliau gartref (staycations) o ansawdd uchel yma, a sicrhau bod ymwelwyr rhyngwladol yn canfod ac yn dewis Cymru. Mae'r Cynllun yn gosod twristiaeth fel sylfaen i economi Cymru ac fel hyrwyddwr ar gyfer cyfleu neges gadarnhaol o Gymru. Mae'r ffocws ar alluogi'r diwydiant i wella ansawdd y croeso a geir yng Nghymru, gan gefnogi cadwyni cyflenwi lleol, sicrhau bod ein harlwy yn addas i gynulleidfaoedd rhyngwladol a pharhau i farchnata Cymru gyda brand hyderus a nodedig yn y DU a thramor.

Caiff nodau llesiant eu cyflawni drwy bob un o'r blaenoriaethau hyn – er enghraifft, disgwylir i fuddsoddiadau newydd sicrhau buddiannau cymdeithasol neu amgylcheddol yn ogystal â rhai economaidd; bydd ein system raddio yn parhau i helpu busnesau i leihau eu hól-troed carbon; bydd ein brand newydd yn parhau i hyrwyddo safbwynt cynhwysol o Gymru a chyfleoedd ehangach ar gyfer gweithgareddau hamdden ac antur yn yr awyr agored, a bydd ein ffocws cryfach ar bolisi yn cynnwys gweithio gyda'r sector er mwyn creu cysylltiadau â meysydd eraill, ac yn eu plith, gofal cymdeithasol a hyrwyddo trafniadaeth gynaliadwy.

Nodwch mai esblygiad nid chwyldro yw'r blaenoriaethau yn y Cynllun – nid yw'r rhan fwyaf yn feysydd gwaith newydd, ond maent yn cynrychioli ffocws cliriach.

Mae'r Cynllun wedi'i lywio gan y pum ffordd o weithio:

Yn y pen draw, mae a wnelo'r Cynllun â dyfodol Cymru yn yr hirdymor fel lle i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo, gan ei fod

- wedi'i lywio gan yr ymatebion i'r deg cwestiwn a ofynnwyd yn benodol am ymwelwyr y dyfodol
- yn ceisio mynd i'r afael â materion hirdymor pwysig fel gormod o dwristiaeth, ac effaith twristiaeth ar yr amgylchedd
- yn mynd i'r afael â'r heriau hirdymor ar gyfer y sector twristiaeth yn cynnwys tymoroldeb, gwariant a dosbarthiad
- wedi'i hysbysu gan ddadansoddiad o ofnyion y farchnad sy'n llywio twristiaeth yn cynnwys ei ragolygon twf ar gyfer y dyfodol a'i potensial
- yn ddogfen fyw, sy'n esblygu, a chaiff data a ddaw i'r amlwg, fel yr arolyg ymwelwyr sydd ar droed, eu defnyddio i hysbysu cyflawniad uniongyrchol yn ogystal â'n blaenoriaethau hirdymor..

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar **atal**, gan gynnwys:

- **Tlodi** – mae twristiaeth yn cynrychioli dros 10% o swyddi mewn rhai ardaloedd yng Nghymru; mae'n dod â'r stryd fawr yn fyw, ac yn annog gwariant mewn ardaloedd anghysbell neu wledig yn aml. Mae swyddi twristiaeth wedi'u dosbarthu ledled Cymru. Felly, bydd twf mewn twristiaeth yn cyfrannu at dwf economïau lleol ledled Cymru.
- **Iechyd Gwael** – mae Croeso Cymru yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd drwy gefnogi, hyrwyddo a gwella mynediad i gyfleoedd hamdden yn yr awyr agored. Mae'r Cynllun yn nodi y byddwn yn parhau i hyrwyddo antur fel llwyfan allweddol i'r brand, ac mae'n cynnwys ffocws ar lwybrau cerdded fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Clawdd Offa, yn ogystal â gweithgareddau eraill yn yr awyr agored. Bydd ein cronfa newydd Y Pethau Pwysig yn cefnogi mentrau sy'n gwella mynediad i weithgareddau hamdden yn yr awyr agored, yn cynnwys 'Changing Places' (toiledau cwbl hygrych), yn ogystal â meysydd parcio a chyfleusterau eraill.
- **Yr Amgylchedd** – er bod teithio rhyngwladol yn effeithio ar allyriadau carbon, yng Nghymru, mae teithio ar ffyrdd yn cyfrannu cyfran uwch o lawer o allyriadau trafndiaeth. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Trafndiaeth er mwyn hyrwyddo teithio mwy cynaliadwy ac yn parhau i weithio gyda BBaChau yn y sector er mwyn hyrwyddo ein pecyn cymorth amgylcheddol sy'n eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr, i leihau gwastraff a bod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.
- **Cydyntian cymunedol** – un o elfennau newydd y Cynllun yw'r ffocws ar feithrin lle ac ymgysylltu cymunedol; drwy ein harolygon, byddwn yn olrhain safbwyntiau cymunedol o dwristiaeth a byddwn yn cynnwys trigolion drwy weithio'n agosach gyda chyrrff twristiaeth.

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun wedi'u **hintegreiddio'n** agos â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, ac wedi'u hysbysu ganddynt, yn cynnwys:

- yr ymgynghoriad parhaus ar y *Strategaeth Ryngwladol ar gyfer Cymru*.
- *Ffyniant i Bawb: Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ategol* – mae twristiaeth yn sector Sylfaen, ac mae'r Cynllun yn ymgorffori'r contract economaidd newydd yn ein gwaith.
- *Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel*.
- *Cymraeg 2050* – y strategaeth ar gyfer y Gymraeg.
- *Gweithredu ar Anabledd*.
- *Cymru Iachach*.

Mae'r cynllun hwn wedi'i adeiladu ar **gydweithrediad a chynhwysiant** drwy raglen eang o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cynnwys:

- y sector (busnesau, y sector cyhoeddus a chyrrff gwirfoddol ac eraill) drwy'r pedwar Fforwm Twristiaeth rhanbarthol (y mae pob un ohonynt yn cynnwys 20-50 o bobl, gyda sawl un yn cynrychioli grwpiau ehangach ym maes twristiaeth), gyda phob un ohonynt yn cwrrdd ddwywaith er mwyn trafod y Cynllun dilynol.
- y pedair Sioe Deithiol Twristiaeth ranbarthol ledled Cymru lle mae'r blaenoriaethau wedi'u cyflwyno a'u trafod.
- sgwrs â'r sector, a lansiwyd yn yr Uwchgynhadledd Twristiaeth ym mis Mawrth 2019 a ofynnodd am ymatebion i ddeg cwestiwn am ddyfodol twristiaeth. Mae'r 396 o ymatebion wedi cael eu dadansoddi'n annibynnol.
- dwy seminar fewnol, un wedi'i hwyluso gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cynnwys timau o bob rhan o Lywodraeth Cymru, yn cynnwys TG, cynllunio, trethiant, sectorau, yr amgylchedd, amgueddfeydd a threfnadaeth, a sawl un arall.
- adborth i'r Dirprwy Weinidog gan aelodau'r Cabinet ac Aelodau'r Cynulliad.
- cyfarfodydd â chyrrff allanol yn cynnwys Anabledd Cymru ac eraill.
- rhaglen weithredol o gynnwys staff mewnol mewn gweithgor rheolaidd a thrafodaethau agored mewn digwyddiadau i staff.

Bydd y **cydweithredu a'r ymgysylltu** hwnnw yn parhau drwy gydol y cam cyflawni. Ni all Croeso Cymru gyflawni'r cynllun hwn ar ei ben ei hun, felly, er mwyn llwyddo, bydd angen cydweithio ag eraill yn cynnwys y sector, meysydd polisi eraill fel trafndiaeth a rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i addasu'r ymrwymïadau yn y cynllun – yn dibynnu ar gyllid ac adnoddau.

Mae'r blaenoriaethau lefel uchel yn y Cynllun hwn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth orau o **effaith strategol** er bod rhai o'r camau gweithredu mwy penodol yn y cynllun ar y cam datblygu o hyd a bydd angen eu hasesu ymhellach. Rydym hefyd yn ymrwymedig i werthuso effaith ein buddsoddiadau, ynghyd â'n rhaglen barhaus o ymchwil a gwybodaeth fel y 'Baromedr Twristiaeth' rheolaidd ac arolygon eraill. Fel y nodwyd, mae hon yn ddogfen fyw y bydd angen iddi esblygu'n hyblyg yng ngoleuni gwybodaeth newidiol a'r adnoddau sydd ar gael.

Yr effaith ar lesiant cymdeithasol

Bydd ein Cynllun newydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau drwy nod 'Twf economaidd sy'n cyflawni blaenoriaethau i bobl a llefydd, yn cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd'. Yn unol â'r Cynllun hwn, bydd Croeso Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn cynhyrchion a digwyddiadau sy'n cyflawni buddiannau lleol i gymunedau (Bro), ond sydd hefyd yn rhoi Cymru ar lwyfan y byd (Byd).

Mae ymrwymadau penodol hefyd er mwyn sicrhau bod y cynllun o fudd i gymunedau lleol drwy:

- strwythurau Rheoli Cyrchfannau diwygiedig a fydd yn ymgysylltu â chymunedau lleol
- sesiynau Fforwm Twristiaeth rhanbarthol agored unwaith y flwyddyn mewn cymunedau sy'n wynebu'r pwysau mwyaf, er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd gorau posibl yn cael ei gyflawni rhwng disgwyliadau ymwelwyr a boddhad lleol
- arolwg newydd er mwyn deall barn pobl yng Nghymru am dwristiaeth.

Fel rhan o'r Economi Sylfaenol yn unol â *Chynllun Gweithredu ar yr Economi Ffyniant i Bawb*, rydym hefyd yn disgwyl i bob busnes twristiaeth sy'n cael cymorth ariannol fodloni gofynion y Contract Economaidd, gan ddangos ymrwymiad i dwf, gwaith teg, iechyd a sgiliau cyflogaion a lleihau ei ôl-troed carbon, ac adlewyrchu'r math o ymddygiadau busnes sydd eu hangen arnom er mwyn cael diwydiant twristiaeth cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn gyffredinol drwy eu galluogi i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, ac yn fwy penodol drwy gynigion i helpu mwy o bobl ifanc i gael gwyliau yng Nghymru ac i gynnal gŵyl o brofiadau am ddim/â chymhorthdal i blant (Daw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'r casgliad y bydd y Cynllun hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb drwy gyflwyno delwedd groesawgar o Gymru a sicrhau bod ein deunydd marchnata yn portreadu gwlad gynhwysol, yn ogystal â thrwy gynigion i wella mynediad i gyfleusterau twristiaeth drwy'r gronfa Y Pethau Pwysig.

Bydd y Cynllun hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar **gymunedau gwledig** drwy gynnal swyddi, a chefnogi bwyd a diod lleol. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad '10 cwestiwn' o'r farn bod effaith economaidd twristiaeth yn gwneud rhai cymunedau gwledig yn hyfyw, yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a galluogi busnesau ehangach nad ydynt yn cymryd rhan uniongyrchol mewn twristiaeth i ategu eu hincwm. Nododd un ymatebydd:

'Mae twristiaeth i lawer o fusnesau bach, gwledig yn rhan hanfodol o'u hyfywedd economaidd ac mewn ardaloedd gwledig, mae cyrhaeddiad cyfannol twristiaeth yn helpu i gynnal busnesau lleol nad ydynt yn ymwneud â thwristiaeth, e.e. siopau pentref, tafarndai. Gall twristiaeth fod yn gyfannol drwy gefnogi a galluogi adnoddau, mynediad ac atyniadau at ddefnydd a rennir gan ymwelwyr a phobl lleol, boed hynny yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.'

Mae safonau uchel o gynnyrch lleol, a llefydd o ansawdd i fwyta ac yfed yn elfennau allweddol o'r profiad i ymwelwyr. Mae'r Cynllun yn cynnwys cynigion i barhau i weithio gydag arweinwyr bwyd a diod, Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau a chlystyrau o'r diwydiant bwyd er mwyn gwella'r arlwy twristiaeth bwyd yng Nghymru, a datblygu Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd newydd ar y cyd erbyn 2020 sy'n cyd-fynd â'r *Cynllun Strategol Bwyd a Diod*, newydd, er mwyn sicrhau bod y sectorau bwyd a thwristiaeth yn cydweithio. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi microfusnesau a busnesau bach. Mae ein pedwar Fforwm Twristiaeth rhanbarthol yn cynnwys llawer o fusnesau mewn ardaloedd gwledig a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw er mwyn eu helpu i dyfu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Phrif Swyddogion Rhanbarthol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y caiff twristiaeth ei chynrychioli yng Nghynlluniau Busnes Rhanbarthol y Cynllun Gweithredu ar yr Economi¹.

Mae tystiolaeth gref yn cysylltu canlyniadau **iechyd** a llesiant ag ansawdd yr amgylcheddau adeiledig a naturiol². Mae gan weithgarwch yn yr awyr agored fuddiannau clir i iechyd meddwl a chorfforol. Er bod mwy na 80% o'r oedolion yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd hamdden yn yr awyr agored o leiaf unwaith y flwyddyn, dim ond 18% sy'n gwneud hynny'n rheolaidd³. Mae canlyniadau o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr yn dangos mai'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd a wneir ar deithiau i Gymru yw ymlacio (27%), cerdded pellteroedd byr (27%), ymweld ag atyniadau ar droed (20%), teithiau cerdded hirach (14%) a theithiau cerdded o ganolfan i ganolfan (13%)⁴.

1 Nid oes asesiad prawfesur gwledig wedi'i gynnal am nad yw'r effeithiau uniongyrchol tebygol sy'n deillio o'r Cynllun yn ddigon arwyddocaol i warantu asesiad manylach.
 2 *Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018)*. Creu lleoedd a manau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.
 3 Llywodraeth Cymru (2018). *Arolwg Cenedlaethol Cymru*.
 4 Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, data 2017

Byddwn yn parhau i hyrwyddo, cefnogi a gwella mynediad i arlwy Cymru o ran gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored i amrywiaeth eang o ymwelwyr yn cynnwys cymunedau. Byddwn yn cefnogi gweithgarwch/cyfleusterau awyr agored ger canolfannau poblog yn ogystal â mentrau eraill fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Clawdd Offa. Bydd gweithgareddau antur a gweithgareddau yn yr awyr agored hefyd yn graidd i frand Cymru a'n gwaith marchnata yng Nghymru.

Mae ymrwymiadau hefyd yn y Cynllun i fentrau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol, yn cynnwys gwell mynediad i gyfleusterau hamdden a thwristiaeth ar gyfer pobl â namau corfforol a gweithio gyda darparwyr gofal cymdeithasol er mwyn gwella'r cyfleoedd ar gyfer gwyliau i amrywiaeth ehangach o bobl yn cynnwys gofalwyr.

Mewn perthynas â **phreifatrwydd**, ni fydd y Cynllun yn newid y ffordd y mae Croeso Cymru yn casglu ac yn trin gwybodaeth gan y busnesau, y sefydliadau a'r unigolion rydym yn rhyngweithio â nhw. Caiff pob deddfwriaeth bresennol sy'n rheoleiddio prosesau diogelu data a rhyddid gwybodaeth ei pharchu'n llawn a'i dilyn yn ein hymyriadau i gefnogi'r diwydiant twristiaeth.

Yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg

Mae llesiant diwylliannol a'r Gymraeg wrth wraidd y Cynllun newydd drwy nod 'Twf economaidd sy'n sicrhau buddiannau i bobl a lleoedd yn cynnwys cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol.

Yn ogystal â bod yn bwysig yn eu rhinwedd eu hunain, mae, **diwylliant a threftadaeth** yn golygu bod Cymru yn unigryw yn y byd ac felly yn helpu i sicrhau bod Cymru yn gyrchfan allblyg. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae twristiaeth wedi gwneud cyfraniad pwysig i ddiwylliant a threftadaeth yng Nghymru, er enghraifft drwy gefnogi digwyddiadau a chynhyrchion diwylliannol lleol, helpu i adfywio trefi hanesyddol, canfod defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol a chefnogi gweithgareddau antur mewn hen dirweddau diwydiannol. Ceir tystiolaeth⁵ bod mwy o ymwelwyr yn ceisio profiadau gwreiddiol ac ystyrion, ac mae diwylliant a threftadaeth yn rhan o hynny, a adlewyrchir mewn adborth o'r sector twristiaeth am yr angen i rannu hunaniaeth a diwylliant Cymreig yn gryfach fel elfennau hanfodol sy'n ei gwneud yn unigryw. Rydym hefyd wedi cael adborth gan sefydliadau diwylliannol fel rhan o'r fforymau twristiaeth, a Cadw, ar gyfer datblygu'r Cynllun.

O ganlyniad, bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant a threftadaeth ac ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden drwy ganolbwyntio ar gynhyrchion twristiaeth treftadaeth, drwy brosiectau sydd o fudd i'r lleoedd arbennig sy'n unigryw i Gymru a thrwy gefnogi digwyddiadau diwylliannol. Mae'r elfennau hyn yn rhyngweithio er mwyn creu profiad sy'n unigryw i Gymru, ac sy'n galluogi Cymru i sefyll allan mewn marchnad gystadleuol iawn, gan hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth drwy'r canlynol:

- parhau i ganolbwyntio ar ddiwylliant fel un o dair thema cynhyrchion craidd a ddefnyddir i flaenoriaethu adnoddau datblygu a marchnata hyd at 2025
- datblygu cynhyrchion diwylliannol y gellir eu harchebu sy'n wynebu'r farchnad ar gyfer y dyfodol - gan fynd â'r rhain i gynulleidfaoedd newydd yn ddigidol ac mewn digwyddiadau
- gweithio'n agos gyda Cadw ar gynhyrchion, digwyddiadau ac ymchwil twristiaeth treftadaeth, yn cynnwys llety newydd i ymwelwyr mewn adeiladau hanesyddol gan ddilyn model y Paradores yn Sbaen
- gweithio gydag Amgueddfa Cymru i ddatblygu profiadau newydd i ymwelwyr
- cefnogi portffolio cytbwys a chynaliadwy o ddigwyddiadau sy'n dathlu amrywiaeth diwylliant Cymru ynghyd â'i natur nodedig
- annog cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol drwy ein rhaglenni Digwyddiadau Cymru.

Ystyriwyd Cymraeg 2050 wrth ddrafftio'r Cynllun sy'n manteisio ar rôl twristiaeth wrth gyflwyno'r Gymraeg a diwylliant Cymru i ymwelwyr o dramor, o'r DU ac o Gymru. Mae tystiolaeth gan ymwelwyr, busnesau a rhanddeiliaid yn awgrymu y caiff y cynllun effaith gadarnhaol ar Thema 3 *Cymraeg 2050* drwy greu cyd-destun cadarnhaol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Byddwn yn monitro'r graddau y mae'r Cynllun newydd yn effeithio ar y Gymraeg drwy werthuso ein buddsoddiadau, gan ddefnyddio 'Bro' a 'Byd' fel fframwaith.

⁵ <https://skift.com/wp-content/uploads/2014/06/skift-peak-experiential-traveler-report1.pdf> (Saesneg yn unig) a <https://www.visitbritain.org/experiential-activity-research> (Saesneg yn unig)

Yr effaith ar lesiant economaidd

Mae'r economi ymwelwyr yn un o brif ffactorau ysgogi yr economi yng Nghymru. Caiff 132,300 o bobl eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 9% o'r gweithlu. Yn 2018, crëodd £6.3 biliwn o wariant gan ymwelwyr £3 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru, sydd wedi tyfu'n llawer cryfach na'r economi gyfan.

Llesiant economaidd yw prif nod y Cynllun, drwy 'Dwf economaidd sy'n sicrhau buddiannau i bobl a lleoedd'. Mae'r nod hwn yn cyd-fynd â nod twf y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* gyda diben sy'n gwella cyfoeth a llesiant ledled rhanbarthau Cymru. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag adborth o'r sector twristiaeth am yr angen i symud tuag at ddatblygiad economaidd cynaliadwy sy'n sicrhau llesiant ehangach ynghyd â thwf masnachol.

Ein prif nod yw sicrhau lefel barhaus o dwf gan ganolbwyntio ar gyfnodau llai prysur – a chyfrannu mwy, drwy dwristiaeth, at Gynnyrch Domestig Gros cyffredinol Cymru. Bydd cefnogi twf a chynaliadwyedd twristiaeth yng Nghymru drwy'r Cynllun yn cael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar lesiant economaidd ar gyfer busnesau perthnasol, gan nodi y gall fod yn anodd datgrynhai gweithgarwch twristiaeth ar ei ben ei hun, a phriodoli effaith iddo.

Mae perfformiad economaidd diweddar y sector twristiaeth yn awgrymu y bydd parhau i fuddsoddi mewn twristiaeth drwy'r blaenoriaethau newydd yn y Cynllun yn gwella llesiant economaidd i fusnesau twristiaeth. Creodd ymwelwyr dros nos â Chymru yn 2018 £2.258 biliwn o wariant, cynnydd o £324 miliwn ers 2012, wedi'i ysgogi gan lefelau tebyg o dwf mewn gwariant gan ymwelwyr dros nos domestig o Brydain Fawr ac ymwelwyr rhyngwladol â Chymru. Mae'r cynnydd hwnnw mewn gwariant gan ymwelwyr wedi ysgogi twf i'r economi ymwelwyr ac i gyflogaeth.

Fodd bynnag, mae heriau parhaus y mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw, yn cynnwys denu ymwelwyr newydd o dramor, arenillion cynyddol gan ymwelwyr, gan ledaenu twf ymwelwyr dros y flwyddyn ac atgyfnerthu brand Cymru. Ymysg y blaenoriaethau eraill yn y cynllun sy'n debygol o effeithio ar lesiant economaidd busnesau twristiaeth mae:

- Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru gwerth £50 miliwn, a ddarperir mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru, a fydd yn helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau twristiaeth sy'n creu effaith gadarnhaol ar sicrhau twf yn y sector ac yn economi Cymru.
- Nifer fach o fuddsoddiadau uniongyrchol o'r sector cyhoeddus dan arweiniad Croeso Cymru mewn prosiectau neu ddigwyddiadau gyda'r potensial i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol, ac sy'n dwyn y gorau o Gymru ynghyd mewn arlwy unigol ar gyfer ymwelwyr. Y prosiect cyntaf i gael ei ystyried a'i gwmpasu yw prosiect i ddatblygu llety gan ddilyn model y Paradores yn Sbaen.
- Dull newydd o gyflawni partneriaeth a fydd yn gweld Croeso Cymru yn symud o strwythur grant cymorth o weithio gyda phartneriaid ar raglenni datblygu refeniw, arloesedd a marchnata i ddull a gaffaelwyd, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch rhanbarthol ac ar lefel cyrchfannau yn cyd-fynd yn llawn â'r Cynllun Gweithredu.
- Archwilio'r posibilrwydd o newid i broses graddio rhydd fel rhan o gam ehangach i symleiddio cymorth busnes lle mae cyngorwyr graddio yn gweithio gyda busnesau twristiaeth i'w helpu i dyfu a dod yn fwy proffidiol.

Bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar y **sector cyhoeddus** yn yr ystyr ei fod yn cynnwys ymrwymiad i'n rhaglen bresennol o ymgysylltu â llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, drwy ein Fforymau Twristiaeth rhanbarthol, drwy ein diweddariadau a'n cylchlythyrau rheolaidd a thrwy'r Sioeau Teithiol twristiaeth. Byddwn yn parhau i roi cymorth drwy ein cyllid refeniw pan fydd cynigion yn bodloni ein meini prawf. Bydd cynigion ar gyfer Treth Twristiaeth newydd yn effeithio ar awdurdodau lleol yn ogystal ag ar y sector, ac mae'r Cynllun yn ymrwymo Croeso Cymru i weithio gyda swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn casglu tystiolaeth ar effaith y cynigion.

Rydym yn ymgysylltu â chyrrff yn y **Trydydd Sector** fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sefydliadau digwyddiadau fel Pride, ac eraill drwy ein Fforymau Twristiaeth rhanbarthol a thrwy ein cylchlythyrau rheolaidd. Rydym hefyd yn cefnogi sefydliadau o'r fath drwy gyllid ar gyfer digwyddiadau, drwy gyllid refeniw a chyfalaf lle y bo'n briodol. Nid oes unrhyw gynigion i newid ein dull gweithredu presennol.

Nid oes unrhyw friad yn y Cynllun i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd, i gyflwyno trosedd na chael unrhyw effaith arall ar y **system gyfiawnder**.

Yr effaith ar lesiant amgylcheddol

Mae argaeledd adnoddau naturiol ac ecosystemau iach o ansawdd uchel yng Nghymru yn un o elfennau allweddol yr arlwy twristiaeth craidd ar gyfer Cymru, sef antur, diwylliant a thirweddau.

Mae gan ein hamgylchedd gysylltiad agos â'n hunaniaeth genedlaethol, ac mae'n cefnogi'r canfyddiad gwyrdd a naturiol o Gymru fel cyrchfan ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Croeso Cymru wedi cefnogi mentrau i wella llesiant amgylcheddol yn uniongyrchol drwy gefnogi busnesau twristiaeth i wella eu perfformiad amgylcheddol ac yn anuniongyrchol drwy hyrwyddo'r amgylchedd fel rhan o arlwy twristiaeth craidd ar gyfer Cymru. Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau amgylcheddol yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â pharciau cenedlaethol ac eraill drwy ein pedwar Fforwm Twristiaeth ledled Cymru, sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun newydd. Gwnaethom hefyd holi'r sector twristiaeth yng Nghymru ynghylch cynaliadwyedd amgylcheddol fel rhan o'r arolwg '10 cwestiwn'. Cawsom amrywiaeth eang o awgrymiadau ar gyfer diogelu'r amgylchedd drwy dwristiaeth, yn cynnwys ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ledled Cymru neu ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig â chasglu sbwriel ac ailgylchu, yn ogystal â chefnogi opsiynau trafndiaeth mwy trydanol a chynaliadwy. Er enghraifft, gofynnodd un ymatebydd i ni:

Hyrwyddo teithio amgylcheddol/cynaliadwy drwy weithio gyda chymunedau lleol a chynnig cymhellion i gymunedau lleol ddarparu modelau teithio cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig a darparu cyllid ar gyfer ymchwilio i systemau trafndiaeth trydanol.' (Ymateb 59: C10)

Yn dilyn yr adborth hwnnw, mae llesiant amgylcheddol wrth wraidd y cynllun drwy nod 'Twf economaidd sy'n sicrhau buddiannau i bobl a lleoedd yn cynnwys... cynaliadwyedd amgylcheddol'. O dan y Cynllun newydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar amgylchedd o ansawdd uchel fel rhan o'r arlwy twristiaeth craidd ac yn cefnogi amrywiaeth o fentrau amgylcheddol eraill.

Rydym yn cyfrannu'n anuniongyrchol i **adnoddau naturiol** drwy gefnogi a gweithio gyda pharciau, bywyd gwylt a sefydliadau treftadaeth naturiol eraill, i ddatblygu eu cynnig i ymwelwyr a thrwy hynny gyfrannu at eu cynaliadwyedd. Byddwn yn parhau i gefnogi profiadau newydd i ymwelwyr sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol, yn cynnwys cynhyrchion a mentrau twristiaeth 'gwyrdd'. Byddwn hefyd yn gweithio'n agosach gyda sefydliadau amgylcheddol drwy weithgor newydd ar dwristiaeth amgylcheddol yn cynnwys parciau cenedlaethol ac eraill.

Fodd bynnag, un o'r ffyrdd posibl y gall twristiaeth effeithio'n negyddol ar adnoddau naturiol yw drwy **ormod o dwristiaeth** pan fydd niferoedd mawr o bobl yn dewis dringo i gopa'r Wyddfa neu un o'r mynyddoedd eraill poblogaidd yng Nghymru ar adegau prysuraf y flwyddyn. Gall hyn greu problemau sy'n deillio o effaith cerddwyr, parcio ceir, sbwriel ac ati. Lleisiodd ymatebwyr i'r arolwg '10 cwestiwn' hefyd bryder bod ardaloedd penodol, fel lleoedd o ddi-ddordeb amgylcheddol, yn wynebu risg o gael eu 'caru i farwolaeth',

ac awgrymwyd y gellid lleddfu hyn drwy hyrwyddo ardaloedd amgen. Byddwn yn mynd i'r afael â gormod o dwristiaeth drwy ganolbwyntio mwy ar farchnata y tu allan i'r tymor er mwyn annog ymwelwyr i ddod ar adegau eraill o'r flwyddyn, neu i ymweld â lleoedd llai adnabyddus. Byddwn hefyd yn monitro gormod o dwristiaeth drwy geisio safbwyntiau trigolion lleol.

Er na chaiff y Cynllun newydd effaith uniongyrchol sylweddol ar flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer y gwaith o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, yn ogystal â gwrthwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth, storau carbon mewn priddoedd neu ansawdd pridd, perygl o lifogydd neu lygredd sŵn, byddwn yn cyfrannu at eraill yn cynnwys:

- **cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol** drwy ein pecyn cymorth amgylcheddol sy'n annog busnesau i ystyried effeithlonrwydd adnoddau a thrwy ein cyllid ar gyfer atyniadau twristiaeth ac adeiladau sy'n lleihau gwastraff drwy ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes
- **cefnogi dulliau ataliol o sicrhau canlyniadau iechyd** drwy hyrwyddo gweithgarwch yn yr awyr agored drwy ein hymgyrchoedd marchnata, cefnogi prosiectau gweithgarwch a chyfrannu at iechyd meddwl drwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli mewn digwyddiadau.

Drwy weithio gyda sefydliadau fel Dŵr Cymru mewn perthynas â'u harlwy o weithgareddau hamdden yn yr awyr agored, rydym hefyd yn cyfrannu'n anuniongyrchol at **wella ansawdd ein dŵr a faint o ddŵr sydd gennym**.

Mewn perthynas â'r **Newid yn yr Hinsawdd** a datgarboneiddio, mae allyriadau o deithio awyr rhyngwladol yn cynrychioli 1% o allyriadau trafndiaeth yng Nghymru, ac mae ymwelwyr rhyngwladol yn cynrychioli 10% o gyfanswm yr ymwelwyr â Chymru. Fodd bynnag, mae ymwelwyr rhyngwladol yn gwario mwy o arian ac yn aros am gyfnodau hwy nag ymwelwyr domestig. Yn hytrach nag atal ymwelwyr rhyngwladol, byddwn yn annog ymwelwyr sydd eisoes yn ystyried dod i'r DU, i ddod i Gymru.

Mae *Cymru Carbon Isel* yn nodi 100 o bolisiau a chynigion sy'n lleihau allyriadau ac yn cefnogi twf yr economi carbon isel, gan nodi y bydd cynaliadwyedd bob amser yn flaenoriaeth allweddol wrth ddatblygu twristiaeth yng Nghymru. Mewn ymateb i hyn, bydd yn dal i fod yn ofynnol i brosiectau cyfalaf a ariennir ymrwymo i'r 'contract economaidd', yn cynnwys 'gwneud cynnydd o ran lleihau ôl-troed carbon', a pharhau i ddatblygu'r **pecyn cymorth** cynaliadwyedd ar gyfer cyrchfannau a busnesau twristiaeth.

Gan nad yw twristiaeth yn gweithredu ar wahân i feysydd polisi eraill, byddwn hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Trafndiaeth er mwyn hyrwyddo teithio mwy cynaliadwy ledled Cymru yn cynnwys defnyddio manau gwefru ac annog teithio ar reilffyrdd. Byddwn hefyd yn cyfrannu at y broses o ailddefnyddio adeiladau hanesyddol, gan leihau gwastraff ac allyriadau carbon drwy'r angen am goncrit a dur newydd.

Bydd busnesau iach, galluog ac arloesol yn y diwydiant twristiaeth yn gwella gwydnwch ac yn helpu i ymgorffori'r **gallu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd**.

Cofnod o'r asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol

Asesiad Effaith	Oes/Nac oes	
Cydraddoldeb	Oes	Cwblhawyd
Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	Oes	Cwblhawyd
Y Gymraeg	Oes	Cwblhawyd
Bioamrywiaeth	Nac oes	Gan na fydd y Cynllun yn newid natur y ffordd y mae penderfyniadau buddsoddi unigol yn ystyried adnoddau naturiol, caiff hyn ei ystyried o hyd ar lefel prosiect ac ni chynigir bod angen casglu tystiolaeth na dadansoddi effaith.
Newid yn yr Hinsawdd	Nac oes	Nid yw effaith y cynllun newydd ar newid yn yr hinsawdd yn ddigon arwyddocaol i warantu asesiad ar wahân gan ddefnyddio methodoleg gwerthuso Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM ar Nwyon Tŷ Gwydr, gan fod y camau gweithredu yn adlewyrchu polisiau presennol Llywodraeth Cymru sydd eisoes wedi cael eu hasesu ar sail polisi unigol (fel y Contract Economaidd (o dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi) sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ddatgarboneiddio, a fydd yn cynnwys y sector Twristiaeth).
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes	Nid ydym wedi cwblhau Asesiad Amgylcheddol Strategol, gan nad yw'r Cynllun wedi cael ei baratoi i'w fabwysiadu drwy weithdrefn ddeddfwriaethol.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes	Nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith gan na fydd y Cynllun yn effeithio ar rwydwaith safleoedd gwarchoddedig Ewropeaidd Natura 2000.
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac oes	Nid oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gan nad yw'r Cynllun yn cynnig adeiladau, datblygiad nac ymyriad penodol. Fodd bynnag, pan fyddwn yn ariannu prosiectau cyfalaf unigol, mae disgwyl iddynt gynnal yr asesiadau amgylcheddol perthnasol.

Casgliad

Fel y nodwyd, mae'r Cynllun newydd wedi'i lunio gan broses eang o ymgysylltu â'r sawl y mae'n effeithio arnynt fwyaf – y 11,500 o fusnesau a sefydliadau twristiaeth ledled Cymru, yn ogystal â llawer o randdeiliaid eraill. Mae'r blaenoriaethau yn y Cynllun yn ymateb i'r pryderon hynny, a hefyd yn cyd-fynd â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru ac yn ychwanegu gwerth iddynt.

Bydd y Cynllun yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i lesiant ag **effeithiau cadarnhaol** ar yr economi, cyfoethogi diwylliannol a chymdeithasol ac iechyd. Er y bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd amgylcheddol mewn rhai ffyrdd, gall twristiaeth hefyd gael **effaith negyddol** ar ddatgarboneiddio drwy deithio rhyngwladol ac ar adnoddau naturiol drwy ormod o dwristiaeth, ac aethpwyd i'r afael â'r rhain yn y Cynllun. Mae'r Cynllun hefyd yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio drwy'r ffocws ar lesiant, drwy'r pwyslais ar bartneriaeth a chydweithredu, drwy'r safbwynt hirdymor a thrwy integreiddio a chydweithio'n agos â meysydd eraill o'r llywodraeth.

Yn fwy penodol, bydd y Cynllun yn gwneud y mwyaf o'r cyfraniad at lesiant drwy ein dyhead i 'Dyfu twristiaeth er budd Cymru' a thrwy 'Dwf economaidd sy'n cyflawni blaenoriaethau i bobl a llefydd, yn cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd'. Bydd pob un o'r blaenoriaethau yn y Cynllun yn cyfrannu at y nodau hynny. Er enghraifft, byddwn yn cyflawni'r canlynol

- **Buddiannau economaidd** drwy gefnogi'r diwydiant a thrwy fynd i'r afael â heriau fel tymoroldeb, gwariant a dosbarthiad.
- **Cynaliadwyedd amgylcheddol** drwy fynd i'r afael â gormod o dwristiaeth drwy annog pobl i ymweld drwy gydol y flwyddyn a thrwy ddeall safbwyntiau trigolion lleol yn well.
- **Cyfoethogi diwylliannol** drwy godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a chreu profiadau a chyfleoedd mwy nodweddiadol Gymreig, yn ogystal â hyrwyddo cynhyrchion twristiaeth treftadaeth.
- **Cyfoethogi cymdeithasol** drwy fuddsoddi mewn mynediad gwell i gyfleusterau twristiaeth, drwy weithio gyda darparwyr cymdeithasol er mwyn canfod cyfleoedd i alluogi amrywiaeth ehangach o bobl i drefnu gwyliau yng Nghymru a thrwy hyrwyddo safbwynt mwy cynhwysol o Gymru.
- **Buddiannau iechyd** drwy gefnogi, hyrwyddo a gwella mynediad i gyfleoedd hamdden yn yr awyr agored yn cynnwys digwyddiadau, gweithgareddau a nodweddion fel Llwybr Arfordir Cymru.

Er mwyn lliniaru rhai o effeithiau negyddol posibl twristiaeth ar allyriadau carbon byddwn hefyd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr ym maes Trafnidiaeth er mwyn annog opsiynau trafndiaeth cynaliadwy, a sicrhau y bydd buddsoddiad mewn cyfleusterau yn cyrraedd safonau amgylcheddol.

Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r Cynllun wrth iddo ddatblygu. Mae'r blaenoriaethau yn y Cynllun wedi cael eu llywio gan gorff sylweddol o dystiolaeth a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd fel y gallwn sicrhau bod prosesau gweithredu yn cyd-fynd â'r dystiolaeth bresennol. Byddwn hefyd yn casglu mwy o ddata ar foddhad ymwelwyr a safbwyntiau trigolion o dwristiaeth er mwyn deall effaith y Cynllun ar lesiant cymdeithasol, ac yn datblygu amrywiaeth o fesurau eraill sy'n cyd-fynd â'r dangosyddion llesiant. Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso elfennau allweddol y Cynllun yn rheolaidd gan ddefnyddio Bro/Byd fel fframwaith, a phan fyddwn yn datblygu mentrau newydd sy'n targedu grwpiau penodol (fel pobl ifanc a gofalwyr), byddwn yn eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach.

